



UMPA

Cyfarfod Bwrdd Ymddiriedolwyr

29fed o Ebrill 2013

Ystafell Bwyllgor

Yn bresennol

Ben Meakin (BM) – Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr
Carys Thomas (CT) – Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwraig
Jessica Leigh (JL) – Swyddog Addysg UMPA ac Ymddiriedolwraig
Ioan Evans (IE) – Swyddog Gweithgareddau UMPA ac Ymddiriedolwr
Laura Dickens (LD) – Swyddog Cymorth Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwraig
Josh James (JJ) – Ymddiriedolwr Israddedig UMPA
John Glasby (JG) – Prif Swyddog Gweithredol Interim UMPA
Stephen Harrison (SH) – Interim Cyllid UMPA
Andrew Morwood (AM) – Rheolwr Gwasanaethau Aeoldaeth UMPA

Yn gwasanaethu yn y cyfarfod

Annmarie Evans – Clerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr UMPA

1. Ymddiheuriadau am fod yn absennol

Stephen Meachem a Christopher Lloyd-Jones

2. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 22fed o Fawrth 2013

Recordiwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar y 22fed o Fawrth, yn gofnod cywir o'r hyn a drafodwyd, yn dilyn y newidiadau canlynol:

Adran 4, y 4ydd paragraff – camsillafu'r gair Rhangol – ei newid i Rangol a Rhag – ei newid i RAG.

Adran 6, y 4ydd paragraff – newid y paragraff er mwyn darllen: Mynegodd yr Ymddiriedolwyr eu diystyrwch tuag at y weithred hon ac fe adawodd BM a JL yr ystafell pan oedd y mater yn cael ei drafod ymhellach. Fe ofynnwyd i IRE adael yr ystafell er mwyn sicrhau bod penderfyniad hyderus yn cael ei wneud ynglŷn â chael etholiadau teg a democrataidd.

Cymeradwywyd gan y Bwrdd

3. Y Cadeirydd yn rhoi briff

Croesawodd BM pawb i'r cyfarfod, ac oherwydd i'r cyfarfod gychwyn yn hwyrach na'r disgwyl, canolbwyntiwyd ar eitem rhif 4 ar yr agenda i ddechrau.

4. Arolwg y Prif Weithredwr Interim

Fe gynhodd JG ei adroddiad a gyflwynwyd yn flaenorol. Yne ei adroddiad, soniodd am y Ddawns Fai, y Rownd Gynllunio, y newyddion diweddaraf am yr Ailstrwythuro, Cyllid a Rhyddid Gwybodaeth. Hysbysodd y grŵp ynglŷn â phenodiadau Andrew Morwood, Rheolwr Gwasanaethau Aelodaeth a Jamie Barker, Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu.

Parhaodd JG i drafod ei amcanion ac eglurodd yng nghyd-destun Amcan rhif 1, ei fod am ddefnyddio Lleoliad Twf Swyddi Cymru ar gyfer Cynorthwydd Marchnata sy'n siarad ac yn ysgrifennu Cymraeg yn dda.

Amcan rhif 5, rhoddwyd set o DdPA i Andrew Morwood, yn dweud wrtho symud y cynllun strategol ar gyfer y Ganolfan Wybodaeth yn ei flaen, a threfnu sesiwn Cydweithio Mewn Tîm am 2 ddiwrnod ar gyfer Cyfnodau Sabothol ym mis Gorffennaf.

O ran yr Arolwg Cyllid, eglurodd SH fod yr ochr elusennol yn gwneud yn dda iawn ac er bod masnach yn ystod y nos yn parhau i ddirywio, rydym yn dal i wneud yn dda.

5. Drafft Cynllun Strategol

Gofynnodd JG i'r Bwrdd os oedd ganddynt unrhyw beth i'w ychwanegu at y Cynllun ac os oeddent yn fodlon ei gymeradwyo. Eglurodd y byddai'r Cynllun Strategol yn datblygu'r sefydliad ac yn sgil y cynllun fe fydd cynlluniau gweithredol a DPA ar gyfer pob aelod o staff.

Cytunwyd y byddai JG yn cynnwys:

Bod unrhyw swyddi gwirfoddol rhan-amser yn derbyn hyfforddiant a chyflwyniadau i'r Undeb Myfyrwyr.

Cymeradwywyd y Drafft Cynllun Strategol.

Cymeradwywyd gan - BM, CT, IE, JL, LD, JJ

6. Cydymffurfiaeth RhG

Fe gymeradwywyd Polisi RhG gyda'r ychwanegiadau canlynol:

Os nad yw cais RhG yn ddilys, efallai bod y wybodaeth wedi cael ei gyhoeddi yn barod.

Bydd cofnodion dwyieithog ar gael ar wefan UMPA o fewn 50 diwrnod, ac eithrio Cofnodion Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Gofynnodd CT i'r Bwrdd gofio y byddai angen cyfieithydd mewnol o fis Gorffennaf.

Cymeradwywyd gan - BM, CT, IE, JL, LD, JJ

Dyddiad Cwblhau Gwasanaeth Prawf y Prif Weithredwr Interim

Gofynnwyd i JG adael yr ystafell tra bod y Bwrdd yn trafod diwedd ei gyfnod Gwasanaeth Prawf. Cytunodd y Bwrdd yn unfrydol ei fod wedi gwneud gwaith eithriadol o dda hyd yma, ac roedd pawb yn hapus i'w gymeradwyo fel PSG parhaol, gan sicrhau ei fod yn gallu tynnu'n ôl o'r ochr Fasnachol. Cytunwyd y byddai'r Ymddiriedolwyr yn gosod ei DPA.

Cytunwyd gan - BM, CT, IE, JL, LD, JJ

8. U.F.A

Cyflwynwyd a thrafodwyd y llythyr gan fyfyrwr. Cytunwyd y byddai JG yn ateb y llythyr ar ran y Bwrdd ac egluro'r canlynol:

Etholiadau: Byddwn yn eich cyfeirio at y datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd gan y Bwrdd ar y 28ain o Fawrth ar wefan yr Undeb....."Cadarnhaodd weddill yr Ymddiriedolwyr fod y broses etholiadau yn un dilyn, gan gynnwys argymhellion yr adroddiad fod yna agweddau sydd angen sylw brys cyn etholiadau'r swyddogion y flwyddyn nesaf. Felly, gwnaethpwyd yn orfodol fod pob un o brosesau presennol yr etholiadau yn cael eu hadolygu cyn y flwyddyn nesaf.

Cydnabyddwyd y nifer arwyddocaol o gwynion a dderbyniwyd gan y Bwrdd, ond roeddent yn fodlon bod pob un wedi cael ei ddelio ag o gan y Swyddog Ddychwelyd, Emily Cannon, a nad oedd yr un ymgeisydd wedi cael mantais drwy ddulliau amhriodol.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr o'r gred y gall myfyrwyr Abersytwyth hyderu yn y broses a'r canlyniad."

Cynulliad y Myfyrwyr: Rwy'n eich cofnodi am eich sylwadau. Mae 'Cynllun Strategol Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth 2013-16' sydd ar fin cael ei gyhoeddi, yn delio â phryderon ynglŷn â sut ydym ni'n sicrhau cynrychiolaeth deg i fyfyrwyr. Ceir hefyd adolygiad cyfan o strwythurau democrataidd yn 2014.

Cynhadledd Anabledd UCM: Byddai'r mater yma fel arfer yn cael ei drin gan aelod o staff y Gwasanaethau Aelodaeth yn hytrach na Swyddog Sabothol. Ond, oherwydd y diffyg staff tymor byr o ganlyniad i'r ailstrwythuriad diweddar, cyfrifoldeb y Swyddog Addysg oedd delio â'r mater. Mae'r Bwrdd yn derbyn y gall hyn fod wedi'i reoli'n well. Mae lefelau Staffio yn ôl i'r lefelau 'normal' bellach, ac mae'r Bwrdd yn hyderus na fyddai'r sefyllfa yma'n digwydd yn y dyfodol.

Rhannodd BM y diweddaraf ynglŷn â'r Ymddiriedolwyr Allanol gyda'r Bwrdd. Eglurodd ei fod mewn cysylltiad â PSG Interim C.A.T. ym Machynlleth a fyddai'n rhannu unrhyw newyddion gyda'r Bwrdd. Hefyd, fe ddywedodd wrth y grŵp y byddai'n gwirio gydag UCM petai unrhyw ymgeiswyr addas, a'i osod ar wefan yr NCVO.

Gofynnwyd i IE a BM adael yr ystafell tra bod e-bost gan fyfyrwr yn cael ei drafod, oherwydd fod yna wahaniaeth barn rhwng y ddau. Trosglwyddodd BM dylestwyddau'r cadeirydd i CT. Amlinellodd JG y gŵyn i'r Bwrdd a darllenodd CT yr e-bost i bawb ei glywed. Cytunwyd y byddai JG yn ateb y myfyrwr ar ran y Bwrdd gan egluro fod y Bwrdd wedi trafod y negyddiaeth a deimlwyd a'r pryderon a godwyd. Byddai pob ymgeisydd yn derbyn hyfforddiant yn etholiadau'r dyfodol.

Dychwelodd BM a IE i'r ystafell a rhoddwyd ar wybod iddynt beth oedd y penderfyniad.

9. Dyddiad ac amser y Cyfarfod Nesaf

Cytunwyd y byddai AE yn trefnu cyfarfod tua diwedd Mehefin/dechrau Gorffennaf.

Gweithredu - AE